**EITEM AR YR AGENDA: 8**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

**21ain Mai 2007**

# CYNNYDD AR RAGLEN CYMRU AR GYFER GWELLA I AWDURDODAU TÂN AC ACHUB YNG NGHYMRU YN 2007-08

**Adroddiad gan Dawn Docx,**
**Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael)**

## Diben yr Adroddiad

**1.** I hysbysu Aelodau ar gynydd cyflwyno Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella i Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru yn 2006-07, yn cynnwys y gofynion i gofnodi perfformiad.

## Cefndir

**2.** Roedd Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Cymru a gyhoeddwyd yn Ebrill 2005 yn cadarnhau y byddai Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru yn destun Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella.

**3.** Roedd datblygu a gweithredu canllawiau Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella i Awdurdodau Tân ac Achub, yn cynnwys cyfres o ddangosyddion strategol cenedlaethol a setiau dangosyddion craidd, wedi ei ohirio gan y Cynulliad tra gwnaed diwygiadau i'r eitemau cyfatebol ar gyfer Awdurdodau Lleol.

## Cyflwyniad

**4.** Derbyniwyd dau lythyr gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ym Mawrth 2007 – y cyntaf ar ddechrau Mawrth yn cynnwys y canllaw Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella i Awdurdodau Tân ac Achub gyda sylwadau i'w derbyn erbyn 2il Ebrill, a'r ail ar ddiwedd Mawrth yn gysylltiedig â dangosyddion perfformiad ar gyfer 2007-08.

**5.** Gan mai amser byr oedd yna i ymateb, casglwyd sylwadau'n ymwneud â Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella i Awdurdodau Tân ac Achub at ei gilydd a'u cyflwyno gan swyddogion ar ran yr Awdurdod.

## Gwybodaeth

**6.** Mae'r canllaw Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella i Awdurdodau Tân ac Achub arfaethedig yn edrych i gydymffurfio gydag anghenion y ddeddfwriaeth Gwerth Gorau (Deddf Llywodraeth Leol 1999) yn ogystal â threfnu'r camau cynllunio unigol yn y fath fodd fel eu bod yn cyfateb gyda'r rhai sydd eu hangen ar gyfer Cynllunio i Leihau Risg.

**7.** Roedd y llythyr dderbyniwyd ar ddechrau Mawrth yn cyfeirio at y bwriad o gyhoeddi'r canllaw Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella i Awdurdodau Tân ac Achub terfynol drwy gylchlythyr ym mis Ebrill.

**8.** Anfonwyd y gyfres arfaethedig o ddangosyddion perfformiad ar gyfer 2007-08 ymlaen i'r Gwasanaeth er gwybodaeth, ond gohiriwyd yr ymgynghoriad arnynt nes ar ôl etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddechrau Mai.

## Argymhellion

**9.** Fod Aelodau'n nodi'r cynnydd sy'n cael ei wneud gan Gynulliad Cymru tuag at Raglen Cymru ar gyfer Gwella i Awdurdodau Tân ac Achub, yn cynnwys y gyfres genedlaethol o ddangosyddion perfformiad i wasanaethau tân ac achub.